# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

# Ysgol

# Henry Richard 3-16

# Additional Learning Needs Policy

**CADY/ALNCO :** Mrs Nia Jakubowski

**Llywodraethwyr a chyfrifoldeb ADY / Govenor with responsibility for SEN:** Miss Kiri Wood

***Mae Ysgol Henry Richard yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi pob disgybl beth bynnag fo'r anhawster mewn awyrgylch ofalgar, gefnogol a chynhwysol.***


***Mae'r ysgol yn lleoliad ymlyniad ymwybodol ac yn ymdrechu i sicrhau'r gofal gorau gan roi ystyriaeth***

***flaenllaw i les emosiynol a chorfforol pob unigolyn.***

**Y Côd ADY Newydd 2021**

Daeth y Côd ADY newydd i rym o fis Medi 2021, gyda chyfnod gweithredu o dair blynedd. Mae'r system ADY newydd yn berthnasol i bob plentyn hyd at a gan gynnwys blwyddyn 10 y credir bod ganddynt, neu sydd newydd nodi bod ganddynt ADY. O fis Ionawr 2022, dechreuodd y system ADY ar gyfer plant hyd at a gan gynnwys blwyddyn 10 a oedd yn GY, GYY (gan gynnwys SAPRA) ac a fynychodd feithrinfa, ysgol neu PRU ar 1 Ionawr 2022. Roedd hwn yn weithrediad graddol ar gyfer plant yn y blynyddoedd stadudol canlynol: Meithrin 1, Meithrin 2, a blynyddoedd 1, 3, 5, 7 a 10. Cafodd yr amser sydd ar gael i symud plant oedd i fod i symud i'r system ADY rhwng Ionawr 2022 ac Awst 2022 ei ymestyn i Orffennaf 2025. Bydd pob disgybl sydd dal ar y system AAA yn trosglwyddo i'r system ADY erbyn Gorffennaf 2025. Tra byddant ar y system AAA byddant yn parhau i dderbyn Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) yn amlinellu eu targedau a'r gefnogaeth ysgol sydd ei hangen i gwrdd â'r targedau hyn.

Revised ALN Implementation Timeframe



**Diffiniad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae ysgol yn mabwysiadu y diffiniad o 'Anghenion Dysgu Ychwanegol ' ADY fel rhoddwyd yn y Cod ADY:

| |
|---|
| 1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—<br><br>(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu<br><br>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.<br><br>(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.<br><br>(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd. |

**Diffiniad o Ddarpariaeth dysgu Ychwanegol DddY**

**1)** Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—

(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr “addysg feithrin” yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

**Broses gwneud penderfyniadau’r ysgol**

1. **A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd?**

Y cwestiynau allweddol i’w gofyn, felly, yw:

i) A yw'r plentyn neu’r person ifanc yn cael mwy o anhawster2 wrth ddysgu na mwyafrif y plant neu bobl ifanc o'r un oedran?
ii) A oes gan y plentyn neu’r person ifanc anabledd (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy’n atal neu’n llesteirio'r plentyn neu’r person ifanc rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach?

Os mai 'oes/ydy' yw'r ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall (neu'r ddau), mae angen bwrw ymlaen gyda'r ail brawf. Os mai 'nac oes/nac ydy' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn, nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

2. **A yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn galw am DDdY?**

Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY, mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY at ddibenion y Ddeddf.

**Broses gwneud penderfyniadau**

Os yw rhiant/gofalwr yn pryderu y gallai fod gan eu plentyn angen dysgu ychwanegol, dylid hysbysu’r ysgol. Gall hyn fod trwy gyfarfod, galwad ffôn neu e-bost.

Os oes gan riant bryder cyffredinol am gynnydd mewn dysgu, dylid cysylltu'r Pennaeth Ffes yn y lle cyntaf i sefydlu a all darpariaeth gynhwysol ddatrys unrhyw anawsterau. Dim ond pan nodir bod anhawster dysgu yn un parhaus ac nad yw ymyrraethau presennol wedi arwain at unrhyw gynnydd y byddai disgybl fel arfer yn cael ei ystyried ar gyfer archwiliad pellach ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Unwaith y bydd yr ysgol wedi cael gwybod am y pryder, mae hyn yn nodi dechrau proses gwneud penderfyniadau. Bydd yr ysgol yn gwneud penderfyniad ac yn hysbysu’r rhieni/gofalwyr o’r canlyniad cyn diwedd 35 diwrnod ysgol o’i ddwyn i sylw’r ysgol. Mewn rhai achosion, gall fod yn anymarferol gwneud penderfyniad o fewn 35 diwrnod oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr ysgol. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd yr ysgol yn hysbysu’r rhieni/gofalwyr am y cynnydd.

**CDU (Cynllun Datblygu Unigol):**

Bydd rhai disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel y nodir yn y Cod ADY newydd, angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DdY) a nodir mewn CDU. Mae CDU yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl asiantaethau o ran cwrdd ag anghenion y plentyn (pryd a sut) a sut y byddant yn gweithio'n gydlynol i gyflawni'r nodau/canlyniadau a nodir yn y CDU. Mae'r broses o ysgrifennu ac adolygu CDU yn Ysgol Henry Richard fel y ganlyn:-

- Asesu ac adnabod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan ddefnyddio ystod o wybodaeth ansoddol a meintiol ar ôl cyfnod o fonitro.
- Casglu gwybodaeth am ddisgyblion am eu cryfderau a meysydd angen gan ddefnyddio Dulliau Cynllunio Person-ganolog
- Cynnal Cyfarfod Adolygiad Person Canolog gyda'r teulu a'r asiantaethau sydd ynglwm ac adolygu beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella ac yna cytuno ar ganlyniadau a chamau gweithredu penodol i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Llais y disgybl sydd yng nghanol y cyfarfod.
- Mae CDU drafft yn cael ei ysgrifennu a'i anfon at Rieni i'w adolygu o fewn y llinell amser a nodir yn y Cod ADY. Os cytunir arno, yna caiff y CDU ei gyhoeddi ac yna ei rannu gyda'r holl staff perthnasol.
- Hysbysir yr ALl o'r CDU a chofnodir hyn ar y Ganolfan Athrawon.
- Mae'r CDU yn cael ei adolygu'n flynyddol

**Terfynu CDU**

Ni fydd dyletswydd ar yr ysgol bellach i gynnal CDU os bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY mwyach ac nad yw'r penderfyniad hwnnw'n cael ei herio'n llwyddiannus. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broces Person Canolig i adolygu anghenion y person ifanc.

Bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal CDU yn dod i ben os bydd y person ifanc ddim yn cofrestredig yn yr ysgol mwyach.

Mewn rhai achosion, gall y ddyletswydd i gynnal y CDU drosglwyddo i'r Awdurdod Lleol.

**Nod yr Adran ADY**

Mae rhoi pob cyfle i ddatblygu gwir botensial pob disgybl yn hanfodol yn ein hadran ni. Mae gan bob disgybl yr hawl i gwricwlwm eang a chytbwys gyda mynediad lawn at y Cwricwlwm Cenedlaethol lle'n berthnasol. Gwerthfawrogir pob plentyn a hybir ei hunanwerth. Meithrinir perthynas agos gyda rhieni / gofalwyr sydd yn chwarae rôl bwysig iawn yn addysg eu plentyn.

**Amcanion yr Adran ADY**

Amcanion ein hadran yw:

· I adnabod ac i fonitro anghenion unigol ein disgyblion cyn gynted â phosib er mwyn i ni allu darparu ar eu cyfer a chodi eu cyrhaeddiad o fewn eu gallu.
· I gynllunio cwricwlwm effeithiol i gwrdd ag anghenion ychwanegol ein disgyblion a, lle'n addas, i sicrhau bod targedau'r Cynllun Addysg Unigol (CAU) yn benodol, yn fesuradwy, o fewn gallu'r unigolyn, yn realistig ac yn cael eu cyflawni o fewn amser penodedig
· I gydweithio'n agos gyda rhieni / ceidwaid disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
· I sicrhau bod pawb sydd ynghlwm â'n disgyblion yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i adnabod eu hanghenion yn ogystal â'r strategaethau i'w cefnogi ac i'w dysgu'n effeithiol
· I gydweithio'n agos, lle'n briodol, gydag asiantaethau allanol i gefnogi anghenion a darpariaeth disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Rôl y Cydlynydd ADY (CADY)**

Mae dyletswyddau'r cydlynydd ADY (CADY) yn cynnwys:

· Goruchwylio gweithrediad dyddiol polisi ADY yr ysgol
· Cydlynu darpariaeth disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
· Cydweithio gyda a chynghori staff dysgu er mwyn eu cynorthwyo i adnabod, i asesu ac i gynllunio ar gyfer anghenion y disgyblion i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd yn ôl ei allu
· Rheoli Chynorthwywyr Dysgu o fewn yr adran
· Cyfrannu tuag at a, lle'n briodol, arwain datblygiad proffesiynol staff yr ysgol yn cynnwys cyfrannu tuag at hyfforddiant mewn swydd (HMS) staff
· Goruchwylio cofnodion holl blant ADY yr ysgol
· Cynnal adolygiadau blynyddol disgyblion sydd â ADY
· Mynychu adolygiadau trosglwyddo disgyblion blwyddyn 6 sydd yn debygol o drosglwyddo i Ysgol Henry Richard a pharatoi gwybodaeth i staff yn nodi anghenion y disgyblion (i'w diweddaru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd)
· Ysgrifennu a chyflwyno ceisiadau i Banel ADY yr ALl
· Sicrhau bod yr ysgol yn hysbysu rhieni/gofalwyr am unrhyw benderfyniad am ddarpariaeth ADY sydd wedi cael ei wneud ar gyfer eu plentyn
· Cydweithio gyda rhieni/gofalwyr disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau eu bod yn cael arweiniad clir ar sut y gallent gefnogi anghenion addysgol eu plentyn
· Gweithio gydag asiantaethau allanol gan gynnwys gwasanaethau cefnogaeth a seicoleg addysg yr ALl, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a mudiadau gwirfoddol
· trefnu trefniadau mynediad ar gyfer pob arholiad, gan gynnwys casglu tystiolaeth ar gyfer ffeil pob ymgeisydd, asesu ymgeiswyr a gwneud cais am drefniadau trwy borth y bwrdd arholi

**Rôl y Corff Llywodraethol**

Mi fydd Corff Llywodraethol yr Ysgol, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth, yn:

· Cadw trosolwg cyffredinol o ddarpariaeth ADY yr ysgol gan sicrhau bod lefel uchel o ddarpariaeth ar gael i ddisgyblion ADY a bod yr ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ADY yn ôl y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2001)

· Sicrhau bod disgyblion ADY yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r ysgol

**Darpariaeth Dysgu Cynhwysol**

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i ddarparu pecyn eang o ddarpariaeth dysgu cynhwysol i gefnogi anghenion dysgu pob disgybl, felly ar gyfer rhai disgyblion nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i gael eu diffinio fel rhai sydd ag angen dysgu ychwanegol (fel y diffinnir yn y Cod), bydd yr ysgol yn parhau i gefnogi eu dysgu trwy darpariaeth gynhwysol. Bydd hyn yn cynnwys gwahaniaethu ar lefel ystafell ddosbarth. Bydd cynnydd disgyblion yn parhau i gael ei fonitro'n dymhorol gan staff addysgu a phenaethiaid ffes a chyfeirir unrhyw faterion o bryder at y CADY yn ôl yr angen.

Enghreifftiau o Ddarpariaeth Dysgu Cynhwysol ar gael yn Ysgol Henry Richard

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ond mae'n dangos enghreifftiau o'r ddarpariaeth gynhwysol sydd ar draws y cwricwlwm yn yr ysgol.

- Gwahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth – mae ystod eang o strategaethau penodol i ADY ar gael i staff. Lle mae angen strategaethau wedi'u teilwra'n fwy, gellir cynnwys y rhain ym Mhroffil Un Tudalen y disgybl
- Fframiau ysgrifennu, rhestrau geirfa, matiau geiriau, dechreu brawddegau, sgwariau rhif ac ati.
- Dull amlsynhwyraidd o addysgu a dysgu
- Amrywiaeth o ddulliau addysgu i ddarparu ar gyfer dosbarthiadau gallu cymysg
- Mwy o gymhorthion gweledol / modelu
- Mynediad i Hafan
- Mynediad at oedolyn cefnogol
- Cefnogaeth fugeiliol
- Mynediad at gwnsela
- Mynediad at weithwyr ieuenctid a mentoriaid
- Gwobrau a chanmoliaeth
- Tiwtor Dosbarth - cyswllt dyddiol
- Troshaenau lliw
- Defnyddio technoleg gynorthwyol (e.e. gliniadur/llechen).
- Hyblygrwydd a sensitifrwydd (e.e. egwyliau gorffwys)
- Trefniadau mynediad arholiadau

**Trefniadau mynediad i ddisgyblion sydd ag ADY**

Ni cheir trefniadau mynediad gwahanol ar gyfer disgyblion ADY ond mae'n hanfodol bod gan yr ysgol yr adnoddau a'r cyfleusterau i gwrdd ag anghenion y disgybl a bod y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn medru cynghori ar y ddarpariaeth orau lle'n briodol.

Bydd y cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd cyn i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol hŷn. Bydd y cydlynydd ADY yn mynychu Adolygiadau Person Canolig blwyddyn 6 sydd â ADY. Rhoddir cyfle i rieni i ymweld â'r ysgol ac i drafod darpariaeth. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd trwy'r cynllun Pontio a/ neu ymweliadau ychwanegol er mwyn hwyluso'r trosglwyddo.

**Datblygiad Proffesiynol**

Bydd y cydlynydd ADY yn monitro a gwerthuso'n darpariaeth er mwyn adnabod, gyda mewnbwn y pennaeth, anghenion datblygiad proffesiynol ein staff. Lle'n briodol bydd hyn yn gysylltiedig â Chynllun Gwella'r Ysgol ac/neu amcanion Rheoli Perfformiad. Bydd staff sydd yn mynychu cyrsiau yn rhaeadru'r wybodaeth yn ystod cyfarfodydd staff neu gyfarfodydd adrannol. Bydd effeithiolrwydd datblygiad proffesiynol yn cael ei fonitro a'i werthuso gan y CADY gan gyfeirio at hyn yn hunanwerthusiad yr adran. Bydd y CADY yn cyfarfod yn dymhorol gyda gwasanaeth anghenion ychwanegol yr ALl a CADY ysgolion eraill.

**Cysylltiadau gyda Rhieni a Gofalwyr**

Fel adran, credwn yn gryf bod mewnbwn rhieni a gofalwyr yn hollbwysig i lwyddiant ein disgyblion. Mae gennym bolisi drws agored. Mae croeso i rieni ffonio neu ymweld â'r ysgol er mwyn trafod pryderon neu gynnydd. Mae croeso hefyd i rieni e-bostio'r CADY JakubowskiN9@henryrichard.ceredigion.sch.uk neu'r Pennaeth PughD22@henryrichard.ceredigion.sch.uk

**Cysylltiadau gyda Gwasanaethau Cefnogol yr ALl ac Asiantaethau Allanol**

Mae Ysgol Henry Richard yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cefnogol yr ALl ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os bydd angen cysylltu ag asiantaethau allanol bydd y CADY, fel arfer, yn gwneud y trefniadau angenrheidiol gan drafod gyda rheini/ofalwyr. Gall yr asiantaethau gynnwys:

- Gwasanaeth Therapi Iaith a Llafaredd
- Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Ceredigion
- Gwasanaeth Cynghorol Ceredigion ar gyfer disgyblion sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Ceredigion (Cyfiawnder Adferol)
- Tîm Plant Anabl
- Tîm Cefnogaeth Ymddygiad Ceredigion
- Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

- Gwasanaeth Ffisiotherapi
- Gwasanaeth Nyrs Clefyd y Siwgr
- Gwasanaeth Nyrs Ysgol
- Gwasanaeth Namau Clyw a Golwg (Gwasanaeth Cynghorol Ceerdigion)
- CAMHS - Child & Adult Mental Health Service
- Tîm o Amgylch y Teulu
- Gyrfa Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol

**Gweithdrefnau cwynion**
Os oes gan rieni/ofalwyr gwyn parthed darpariaeth eu plentyn dylid trafod hyn gyda'r cydlynydd ADY yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn llwyddiannus dylid ddilyn trefn gwyno ffurfiol yr ysgol.

**Dyddiad Adolygu'r Polisi : Medi 2024**

**Adolygiad Nesaf: Medi 2025**

**Llofnod Pennaeth :-**

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr :-**